

# Adran 2

# Crynodebau sector: Gyrfaoedd

2

## Cyd-destun

Yn ystod y flwyddyn, ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau o Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG), sy’n masnachu fel Gyrfa Cymru Careers Wales. Ffurfiwyd y cwmni yn 2013. Mae’n is-gwmni a berchnogir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru. Mae Career Choices Dewis Gyrfa yn cyflenwi gwasanaeth cyfunol sy’n integreiddio’r defnydd o dechnolegau digidol ochr yn ochr â sianelau cyflenwi mwy traddodiadol, wyneb yn wyneb. Mae’n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad pob oedran, annibynnol a diduedd ar gyfer Cymru.

Amlinellir y gofynion ar gyfer gwasanaethau Gyrfa Cymru mewn llythyr cylch gwaith blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Ategir hyn gan yr erthyglau cymdeithasu ar gyfer Career Choices Dewis Gyrfa a dogfen fframwaith, a ddefnyddir yn sylfaen ar gyfer cynllun busnes blynyddol Gyrfa Cymru. Nod Gyrfa Cymru yw helpu pobl i wneud penderfyniadau effeithiol o ran rheoli eu gyrfaoedd, a datblygu o fewn hyfforddiant, dysgu pellach neu gyflogaeth. Trwy wneud hyn, ei nod yw cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol Cymru. Yn y cyfnod er 2010, mae newidiadau yn ei gylch gwaith a gostyngiadau yn ei gyllideb weithredu wedi arwain at lawer o newidiadau i strwythur, staffio a rôl y cwmni, gan gynnwys y ffaith ei fod wedi tynnu’n ôl o gefnogi pobl ifanc i gael profiad gwaith.

# Crynodebau sector: Gyrfaoedd

Ym mis Ebrill 2017, lansiodd Gyrfa Cymru eu gweledigaeth am dair blynedd, sef 'Newid Bywydau' (2017). Yn sgil y weledigaeth, canolbwyntiwyd o'r newydd ar adnoddau i bobl ifanc, gyda phwyslais penodol ar gyfnod allweddol 4 a chymorth mewn cyfnodau pontio eraill, hyd at 19 oed.

Mae'r gostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael i'r cwmni wedi cynyddu pwysigrwydd y rôl y dylai fod gan ysgolion yn helpu pobl ifanc i gynllunio eu dilyniant gyrfa.

Eleni, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad thematig ynghylch Cyrsiau Safon Uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach (Estyn, 2018a). Nododd yr adroddiad hwn, er bod llawer o ddysgwyr a'u rhieni yn hapus ag ansawdd y cyngor a'r arweiniad y maent wedi'i gael gan staff mewn ysgolion a cholegau, mewn gwirionedd, nid oes gwybodaeth glir ar gael iddynt ynglŷn â pha rai yw'r darparwyr gorau o ran cyrsiau Safon Uwch yn eu hardal. Mae cyngor ac arweiniad i ychydig o ddysgwyr, yn bennaf y rhai â chyrhaeddiad isel mewn TGAU, yn anaddas. Mae'r dysgwyr hyn yn fwy tebygol o beidio â chwblhau Blwyddyn 12 neu fynd ymlaen i Flwyddyn 13 na dysgwyr eraill. Yn gyffredinol, mae cyngor ac arweiniad gan athrawon yn canolbwyntio gormod ar lwybrau academaidd fel cyrsiau Safon Uwch a phrifysgol, ar draul llwybrau gyrfa eraill. Mewn ysgolion â dosbarthiadau chweched, mae cyngor ac arweiniad gan staff yn aml yn canolbwyntio ar gadw dysgwyr yn eu chweched dosbarth.